WELSH INSTITUTE FOR HEALTH AND SOCIAL CARE
SEFYDLIAD IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU

University of South Wales · Prifysgol De Cymru

https://wihsc.southwales.ac.uk · https://wihsc.southwales.ac.uk/cymraeg · wihsc2@southwales.ac.uk

Gyda Gweledigaeth 2020: gwersi iechyd, gofal a llesiant: rhagarweiniad

Tony Garthwaite

Fy "man cychwyn" personol ydy'r papur hwn, ac fel y cyfryw yn ddim ond megis crafu wyneb rhai problemau dwys yn fwriadol y mae e. Yn hytrach na chanolbwyntio ar ddadleuon epidemiolegol neu ar wneud cymariaethau ffug â pherfformiad gwledydd eraill, mae fy ffocws ar geisio cyfleu safbwynt yr aelodau hynny o'r cyhoedd sydd wedi drysu gan rai o'r pethau maen nhw'n eu gweld ac yn syml yn ceisio cael atebion i gwestiynau sy'n effeithio ar eu bywydau. Felly, rydw i wedi osgoi defnyddio sail academaidd i'r ystyriaethau hyn gan obeithio y bydd y cyfraniad hwn o leiaf yn helpu i agor ein meddyliau i syniadau eraill.

PRYD DYLEN NI DDECHRAU DYSGU GWERSI?

Mae'r pandemig coronafeirws wedi cynnig cyfle ar gyfer dysg digynsail a fydd yn hanfodol bwysig i'r modd yr ydyn ni'n ymateb i ddarpar glefydau pandemig a hefyd i'r modd yr ydyn ni'n dymuno byw ein bywydau wedi hynny. Mae'r sylw di-ben-draw a gafodd ar y cyfryngau dros y misoedd diwethaf yn anochel ac wedi cynnig lefelau newydd o wybodaeth am bynciau gwahanol i'r cyhoedd. Mae materion a oedd, hyd yn ddiweddar, yn faterion i weithwyr proffesiynol a gwleidyddion, erbyn hyn yn destunau trafod dyddiol y cyhoedd drwy'r wlad. Mae gwelyau gofal dwys, offer diogelwch personol (PPE), cyfraddau marwolaethau, awyryddion, ffactor R, profi am wrthgorffynnau ac olrhain cysylltiadau bron ymhob bwletin newyddion ac mae'n ymddangos na fu adeg gwell erioed i fod yn athro coleg os ydych am draethu'ch gwybodaeth a'ch arbenigedd ar y cyfryngau cenedlaethol. Mae'r briffio dyddiol gan weinidogion wedi bod yn gyfareddol oherwydd y gwrthgyferbyniad a welir rhwng didwylledd a gonestrwydd y swyddogion meddygol a gwyddonol a ieithwedd wleidyddol y gweinidogion.

Mae gwleidyddion yr wrthblaid ymdrechu'n galed i ddangos undod a theyrngarwch mewn cyfnod argyfyngus tra'n ysu i fynegi eu rhwystredigaeth am nifer o agweddau o berfformiad y llywodraeth. Dywedir wrthon ni "nid nawr yw'r adeg i boeni am ddysgu gwersi" ond mae rhywun yn meddwl a fydd yr ymchwiliad anochel, cyhoeddus neu fel arall, a fydd yn dilyn hyn rywbryd yn y dyfodol yn ein galluogi i gyfleu'n llawn sut ydyn ni'n teimlo ar hyn o bryd am y nifer echrydus, ingol o farwolaethau, y modd y gofynnwyd i weithwyr rheng flaen wneud swyddi peryglus heb offer diogelwch personol priodol a'r gofid a'r dioddef o golli swyddi a busnesau. Mae teimladau mor bwysig â ffeithiau yn y sefyllfa bresennol sydd ohoni a byddwn i'n dadlau mai nawr yw'r union adeg i ddechrau ar y broses ddysgu, i gychwyn ystyried rhai o'r problemau cyfoes yn agored ac yn onest.

RHEOLI PANDEMIG

Gallwn ddechrau'r dysgu drwy ystyried sut gall ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol weithredu yn ystod pandemig, sut gall llywodraeth reoli argyfwng sy'n effeithio ar bawb yn y boblogaeth, i ba raddau yr ydyn ni'n barod i gydymffurfio â chyfarwyddiadau, a sut mae economi byd eang a yrrir gan y farchnad yn ymdopi â'r angen am ymateb hollgyffredinol ar sail blaenoriaethu iechyd. Gallwn hefyd ddechrau barnu perfformiad llywodraeth nid yn unig o ran

polisi ond ei gallu i roi'r polisïau hynny ar waith. Yn absenoldeb iachâd a brechlyn, byddai meini prawf brys ar gyfer barnu perfformiad yn ymwneud â gallu'r llywodraeth i'n cadw yn ddiogel a helpu'r rhai hynny sydd, yn anffodus, yn dal y firws i wella ac osgoi marw. Y materion penodol a graffwyd fu'r polisi o ymbellhau cymdeithasol, cynnal profion, cyflenwi PPE a chymorth economaidd i fusnesau a gweithwyr. Yn y tymor hirach, i ba raddau y bydd y "normal newydd" yn ffordd dderbyniol o fyw ein bywydau fydd y gwir brawf o'n teimlad am y modd y rheolwyd y pandemig.

Mae Covid wedi effeithio arnon ni mewn ffyrdd tebyg a gwahanol, yn dibynnu ar ein hamgylchiadau ac mae'n iawn cychwyn drwy ystyried y misoedd diwethaf. Efallai mai'r enghreifftiau mwyaf trawiadol o'r ffaith nad oes gan y firws ddim parch at statws nac at awdurdod yw gweld etifedd y goron a'r Prif Weinidog yn cael eu heintio, yn achos yr olaf yn ddigon gwael i warantu triniaeth yng ngofal dwys ysbyty. Drwy drugaredd, anghofiwyd am ragfarn wleidyddol wrth i bobl obeithio a gweddïo am ei adferiad. Eto i gyd, mae'n briodol ystyried sawl bywyd a fyddai wedi cael ei arbed petai pawb oedd â'r un symptomau wedi gallu cael mynediad i ysbytai am "resymau gochel ymlaen llaw" yn hytrach na dweud wrthyn nhw am hunan-ynysu hyd nes i'w symptomau waethygu. Mae'r ofn o lethu capasiti gofal dwys y GIG a oedd wrth wraidd y cyngor yn ddealladwy ond yn fawr o gysur i'r rhai a fu farw neu i'w teuluoedd a ffrindiau.

Yn ystod y misoedd diwethaf, gwelwyd y dull o ail-adrodd y slogan dri gair o fynd ati i gyfleu polisi'r llywodraeth. Disodlwyd "Take Back Control" a "Get Brexit Done" gan "Stay at Home" a "Protect the NHS". Oherwydd annigonolrwydd y dull gor-syml hwn o fynd ati amlygwyd problemau wrth ei weithredu. Gyda "Stay at Home", er enghraifft, cafwyd amrediad o gyngor am bwy, pryd a sut gellid eithrio pobl. Mae arbed bywydau yn ganlyniad i ddiogelu'r GIG ac eto mae capasiti gofal dwys wrth gefn, y llwyddodd y llywodraeth i'w gyflawni, wedi methu ag atal cyfraddau marwolaethau'r DU rhag bod ymhlith y rhai uchaf yn y byd. Mewn cyfweliad yn ddiweddar ar y teledu ymatebodd gweinidog cludiant y DU i feirniadaeth nad oedd y llywodraeth wedi paratoi'n ddigonol ar gyfer y pandemig o ran y galluedd i gynnal profion drwy ddweud nad oedd proffil diwydiannol fferyllol y DU wedi'i ganoli ar brofi a "*you can't help where you start on these things*". Felly, rhaid i rywun dybio pa effaith mae degawd o gyni wedi'i gael ar allu'r GIG i ddelio â'r pandemig a sut dylanwadodd hyn ar asesiad y llywodraeth o'i allu i reoli'r galw.

Mae Covid wedi amlygu nifer o wahanol baradocsau. Er enghraifft, rydyn ni'n llongyfarch ein hunain ar i ba raddau yr ydyn ni wedi cydymffurfio gyda'r cyfyngiadau symud ond roedd angen deddfwriaeth lem a chaeth cyn i ddigon ohonon ni fod yn barod i aros gartref. Peidiwn ag anghofio'r trenau dan ddaear oedd dan eu sang, partïon tai ac amharodrwydd i beidio â mynychu digwyddiadau torfol fel Gŵyl Rasio Ceffylau Cheltenham ddyddiau yn unig cyn i ymbellhau fod yn orfodol. Rydyn ni'n canmol sgiliau a dewrder gweithwyr y GIG ond fe gymerodd hi dros dair wythnos cyn i bobl fod yn rhesymol ymwybodol o gyflwr y rhai sy'n byw a gweithio yn ein cartrefi gofal a hyd heddiw mai llai o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o sut mae rhaid i'r gwasanaeth gofal yn y cartref ymdopi. Fe wnawn ni ddychwelyd at y sefyllfa mewn cartrefi gofal mewn papurau yn y dyfodol. Roedd hyder y Canghellor wrth gyhoeddi cymorth biliynau o bunnoedd i weithwyr a busnesau wedi creu argraff arnon ni ond wedyn gweld llawer ohonyn nhw yn mynd i'r wal oherwydd bod yr arafwch i ddosbarthu'r cymorth wedi methu eu helpu. Rydyn ni'n edmygu haelioni pobl yn gwirfoddoli i gynorthwyo'r GIG a rhoi i fentrau codi arian megis ymdrechion yr anhygoel Gapten (nawr Cyrnol) Tom Moore, ac ar yr un pryd gweld elusennau eraill yn cael trafferth i oroesi. Rydyn ni'n dathlu mentrau unigolion sy'n gweithgynhyrchu eitemau megis PPE yn wirfoddol tra'n tystio i rymoedd cyflenwi a galwadau'r farchnad achosi i brisiau godi.

Y PERSONOL A'R GWLEIDYDDOL

Amlygwyd rhai o ganlyniadau cudd ac annisgwyl Covid yng nghyfradd gostyngedig yr achosion o salwch a amheuir a gyflwynir i'r GIG, megis arwyddion cynnar o ganser a'r cynnydd mewn cam-

driniaeth, yn enwedig trais domestig. Rydyn ni'n amau, ond ni allwn gadarnhau hyn eto, mai dim ond rhan fechan o broblem ddyfnach ydy'r achosion trais a gofnodwyd gan fod y cyfnod cyfyngu ar symudiadau yn cynnig hafan ddiogel i'r rhai sy'n cuddio rhag yr awdurdodau ar adegau normal barhau i ymddwyn yn dreisgar. Yn eironig ddigon, mae gostyngiadau yn yr achosion sy'n cael eu riportio yn creu cymaint o bryder ag ydy cynnydd yn y cyd-destun hwn.

Yn ddi-os, rydyn ni'n fwy ymwybodol o'n breuder a'n meidroldeb ni ein hunain wrth i ni ddod i wybod rhagor am y firws a'i allu i effeithio ar yr ifanc a'r henoed. Mae nifer y marwolaethau wedi'n dychryn a dim ond tystiolaeth ystadegol terfynol yr ONS o'r cynnydd blynyddol net fydd yn rhoi'r gwir ddarlun i ni o ba mor ddinistriol bu'r firws hwn. Does neb yn gwybod graddfa'r ofn presennol fydd yn parhau ar ôl i'r cyfyngiadau ar symud gael eu codi, ond mae'n annhebygol y bydd pobl yn teimlo'n ddiogel i fynychu tafarn, bwyty a dulliau torfol o deithio heb ddefnyddio rheolau ymbellhau cymdeithasol llym yn effeithiol am beth amser eto. Dim ond yn nghyd-destun y byrdymor y gellir cyfiawnhau'r galw am strategaeth bendant ar gyfer gadael gan fod yr ateb am adael diogel yn yr hir-dymor – brechlyn, triniaeth a phrofi torfol effeithiol ac olrhain – yn ymddangos yn bell i ffwrdd.

Bu llawer o ddadlau am ba mor barod oedd y DU ac a allai'r gyfres o gamau a weithredwyd dros y misoedd diwethaf fod wedi'u cychwyn yn gynharach. Dywedwyd wrthon ni drwy hyn i gyd bod yr arweinwyr gwleidyddol wedi "dilyn y cyngor gwyddonol" ond gwyddon ni bod mwy nag un fersiwn o'r wybodaeth ar gael, fel y gwelwn o'r cyngor gwahanol a roddir ar wisgo masg wyneb a dulliau gwahanol y pedair cenedl o fynd ati i brofi. Mae'n bwysig osgoi dibynnu ar ôl-ddoethineb yn unig i asesu barn wleidyddol fod y problemau oedd yn wynebu'r arweinwyr gwleidyddol ar y pryd yn gymhleth ac yn eithriadol o heriol o ran amseru a sylwedd. Fodd bynnag, gallai beiddgarwch a dymuniad rhai ddangos hyder yn ysbryd pobl Prydain i oresgyn pob drwg brofi'n annoeth o ran arafwch cymharol i ymateb, a'r cyngor cynnar eitha anffurfiol a gynigwyd megis dal i ysgwyd llaw a mynd o gwmpas busnes fel arfer cyn belled â phosibl ond gydag ychydig o ofal. Roedd yn glir nad oedd golchi'n dwylo yn unig yn mynd i fod yn ddigonol i atal y firws rhag lledu a byddai angen gweithredu camau eraill. Bydd hanes yn dyst a oedd angen i arweinwyr gwleidyddol gydweddu mwy ag ofnau cynyddol y boblogaeth a llai ar yr angen i ymddangos eu bod yn rheoli ac yn hyderus.

Mae mater y PPE wedi datgelu bod un ymddiriedolaeth GIG yn Lloegr yn defnyddio tua miliwn o eitemau bob pythefnos ar draws ei phum ysbyty. Yn ddiweddar dywedodd Syr David Attenborough mai ei ofn mwyaf ar gyfer y blaned oedd gwastraff felly pam na allwn ni ddarganfod dull o ail-ddefnyddio eitemau arbennig o PPE yn ddiogel? Ydy hi'n ddealladwy y dylai cyhoedd deallus gwestiynu pam bod golchi'n dwylo yn ffordd effeithiol i atal i'r firws rhag lledu ond dydyn ni ddim yn golchi PPE fel mater o arfer. Rydw i'n amau bod dylanwad cyfrifyddion yn gwneud achos economaidd dros gael gwared â'r PPE yn hytrach na'i olchi wedi cyfrannu cymaint i'r dull cyfredol o fynd ati ac ydy'r ffactorau diogelwch.

Mae'n arwydd o'r adegau digynsail hyn sydd ohoni heddiw bod cymaint o faterion wedi codi mewn cyn lleied o amser. Efallai ei bod yn rhy gynnar i farnu perfformiad y llywodraeth hyd yma neu ragweld effaith hirdymor Covid ond mae digon o dystiolaeth gyda ni i awgrymu y bydd y normal newydd yn ganlyniad anochel. Mae'r cynnydd angenrheidiol yn y defnydd o'r dechnoleg ddigidol wedi cynnig cyfleoedd newydd i weithio'n wahanol. Mae'r modd i flaenoriaethu sut yr ydyn ni'n gwerthfawrogi'r gweithlu wedi newid a dylai hyn arwain at fwy o gydnabyddiaeth o bwy sydd o bwys gwirioneddol a, gyda gobaith, y daw gwobrau ychwanegol hefyd. Mae pwysigrwydd y wladwriaeth ar adeg o argyfwng wedi'i atgyfnerthu ond hefyd ei diffyg profiad wrth weithredu.

11eg Mai 2020